

GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG AR WELLA CANLYNIADAU I BLANT

MAES GWEITHREDU 1: LLEIHAU'N DDIOGEL NIFER Y PLANT SYDD ANGEN GOFAL

ARGYMHELLION Y FFRWD WAITH

Cyflwyniad

Wrth gydnabod y pwysau parhaus i wasanaethau plant a llysoedd teulu, penderfynodd Grŵp Cyngori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant (y Grŵp Cyngori) sefydlu ffrwd waith newydd ym mis Mehefin er mwyn canolbwyntio ar helpu i leihau nifer y plant sydd angen gofal yng Nghymru, yn enwedig trwy ddarparu gwasanaethau cymorth effeithiol i deuluoedd.

Mae'r tasgau sy'n gysylltiedig â'r ffrwd waith hon wedi'u cyflwyno yn rhaglen waith gyffredinol Cam 3 y Grŵp Cyngori; mae Atodiad 1 yn cynnwys trosolwg cryno. Fel ym mhob gwaith a gyflawnir gan y Grŵp Cyngori, nod y ffrwd waith yw cynnwys fframwaith yn ei weithgareddau er mwyn i gyrff cyhoeddus weithredu Hawliau Plant yng Nghymru, wedi'u cyhoeddi gan y Comisiynydd Plant.

Fel cam cyntaf, roedd aelodau'r ffrwd waith am gael dealltwriaeth lawnach o'r arferion gorau cyfredol yn y gwaith sy'n cael ei wneud i ddatblygu gwasanaethau cymorth effeithiol i deuluoedd. Roedden nhw am weld pa ffactorau oedd yn helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd a beth sydd angen ei wneud i gyflwyno gwelliannau pellach. Roedd hyn yn cynnwys amryw o weithgareddau, gan gynnwys dadansoddi gwybodaeth awdurdodau lleol i Lywodraeth Cymru am sut y defnyddiwyd y £5 miliwn a fuddsoddwyd mewn gwasanaethau ar ffiniau gofal yn ystod 2017/18.

Hefyd, aeth y ffrwd waith ati i sefydlu tasglu i gynnal 'ymchwiliad gwerthfawrogol' ar draws amryw o awdurdodau lleol. Aeth aelodau'r tasglu i ymweld â chwe awdurdod lleol; yn ystod sesiynau hanner diwrnod, gwahoddwyd staff perthnasol i rannu problemau, syniadau ac atebion. Mae rhai o'r cwestiynau pwysicaf a drafodwyd yn y digwyddiadau hyn i'w gweld yn Atodiad 2. Yna, cyhoeddodd y tasglu adroddiad am hyn, *Report of an Appreciative Inquiry: Family Support Services in Six Local Authorities*. Mae'r adroddiad yn disgrifio eu dealltwriaeth o'r cyd-destun ar gyfer newid a'u casgliadau o ran:

- Hyd a lled y gwasanaethau cymorth i deuluoedd;
- Dulliau o ymdrin â'r gweithlu a materion ymarfer;
- Modelau system gyfan a gweithio mewn partneriaeth;

- Arweinyddiaeth strategol.

Ar gyfer pob maes, y nod oedd canfod: beth sy'n gweithio'n dda, pa ffactorau sy'n galluogi'r datblygiadau gwasanaeth hyn i weithio'n dda, a beth yw'r prif heriau a sut gellir mynd i'r afael â nhw. Hefyd, cyflwynodd y tasglu syniadau am y math o gymorth sy'n ofynnol er mwyn i awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol gyflawni'r newidiadau strategol a gweithredol (ar draws y continwmm cyfan o wasanaethau cymorth i deuluoedd) a fydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn a chynaliadwy. Fel sy'n ofynnol gan raglen waith y Grŵp Cyngori, fe wnaeth y tasglu gyflwyno'r canlyniadau i aelodau'r ffrwd waith a'u defnyddiodd wedyn i greu'r argymhellion isod, er mwyn i Grŵp Cyngori'r Gweinidog eu hystyried.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r ffaith bod cael atebion effeithiol i'r heriau a nodwyd yn y gwaith hwn yn bwysicach fyth yn awr.

- Mae'r ffigur dros dro ar gyfer nifer cyffredinol y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018 yn dangos cynnydd sylweddol pellach. Roedd 6,407 o blant yn derbyn gofal yng Nghymru, 8% (464 o blant) yn uwch na'r llynedd. Mae nifer y newydd-ddyfodiaid i ofal (2,162) wedi lleihau o gymharu â'r llynedd (2,218) ond nifer y plant/pobl ifanc sy'n gadael gofal wedi lleihau hefyd, sef 10% (1,724 o blant o gymharu â 1,911 y llynedd). Mae hyn yn parhau â'r patrwm a welwyd ym mhob un o'r pedair blynedd diwethaf. Mae angen i wasanaethau cymorth i deuluoedd mewn awdurdodau lleol ymateb trwy ganolbwyntio mwy ar helpu i uno teuluoedd ac atgyfnerthu'r pwyntiau gadael gofal eraill i sefyllfa barhaol, fel mabwysiadu a gorchmynion gwarchodaeth arbennig.
- Ar ben hynny, dywed rhai awdurdodau lleol ei bod hi'n eithriadol o anodd ymdrin â'r gorwario disgwylidig yng nghyllidebau gwasanaethau plant ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol, yn bennaf oherwydd nifer cynyddol o leoliadau neu gostau cynyddol.
- Yn fwy cadarnhaol, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod am fuddsoddi £15 miliwn arall y flwyddyn nesaf (drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol), er mwyn ehangu'r gwasanaethau ataliol ac ymyrryd yn gynnar fel bod plant a theuluoedd yn cael cymorth i aros gyda'i gilydd. Mae hwn yn gyfle gwirioneddol i newid pethau ymhellach. Mae'n bwysig ein bod ni'n rhoi cyngor awdurdodol ar fyrder i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill am gyfeiriad cyffredinol, arferion gorau, a materion gwerth am arian yn y maes cymhleth hwn. Dylai pawb sy'n gyfrifol am weithredu'r argymhellion gofio am y gofynion statudol i gynnal hawliau plant, yn enwedig y rhai sydd yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at yr ymdrechion i sicrhau bod y gwasanaethau (rhai ataliol ac arbenigol) yn darparu perthynas waith seiliedig ar ganlyniadau a chryfderau i blant a theuluoedd yn gyson. Hefyd, mae'n nodi rhai o'r problemau'n ymwneud ag ymarfer proffesiynol a'r gweithlu a allai godi. Daeth aelodau o Ffrwd Waith 1 i'r casgliad bod y Ffrwd Waith sy'n goruchwylio Maes Gweithredu 4 yn rhaglen gyffredinol Grŵp Cyngori'r Gweinidog (*Datblygu gweithle cynaliadwy ac ymarfer*

proffesiynol da) mewn sefyllfa well i argymhell sut i ymdrin â'r heriau hyn. Mae goblygiadau hefyd i'r Ffrwd Waith sy'n goruchwyllo Maes Gweithredu 3 (*Helpu plant sy'n derbyn gofal i gael y siwrnai orau bosib trwy ofal ac i fyd oedolyn*). Gall gwasanaethau cymorth i deuluoedd wneud cyfraniad allweddol at ailuno teuluoedd, helpu i adael gofal neu helpu plant mewn gofal i gael gafael ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Cofiwch fod modd rhannu argymhellion yr adroddiad hwn yn dair rhan, o ran pa mor berthnasol ydynt i awdurdodau lleol a'u partneriaid, cyrff rhanbarthol a sefydliadau cenedlaethol. Fodd bynnag, mae aelodau'r ffrwd waith yn cydnabod y bydd angen elfennau cryf i gyd-gynhyrchu a chydweithio o fewn ac ar draws pob haen er mwyn cyflwyno newidiadau ar y raddfa ofynnol i ymateb i'r heriau presennol.

Dim ond trwy raglenni sylweddol o fewn gwasanaethau cyhoeddus a thu hwnt mae modd mynd i'r afael â llawer o'r ffactorau sy'n llywio'r angen am wasanaethau cymorth i deuluoedd. Ceir cydnabyddiaeth eang bod profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, fel cam-drin corfforol a geiriol yn gallu cael effaith negyddol ar ddatblygiad plentyn. Fel mae adroddiad yr Appreciative Inquiry yn ei ddweud, mae effaith y fath brofiadau'n gallu para ymhell ar ôl iddynt ddigwydd, yn aml gyda chanlyniadau difrifol a goblygiadau amlwg iawn i wasanaethau amddiffyn plant. Mae lleihau nifer y profiadau niweidiol a ddioddefir gan blant Cymru yn sbardun allweddol i greu cenedlaethau hapusach ac iachach yn y dyfodol. Mae deall sut mae plant a phobl ifanc yn magu cydnerthedd a darparu cymorth sy'n helpu i greu hynny yn ffactorau allweddol wrth helpu i leihau effaith profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

Ers nad oes cysylltiad uniongyrchol rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod â thlodi, mae'r straen ychwanegol a achosir trwy fyw mewn tlodi yn gallu creu awyrgylch lle mae'r profiadau hyn yn digwydd yn amlach. Dro ar ôl tro, mae ymchwil yn dangos cysylltiad cryf rhwng cyfraddau amddiffyn plant a phlant mewn gofal yng Nghymru ac amddifadedd mewn ardaloedd lleol. Yn aml, mae gwaith gwasanaethau cymdeithasol i blant yn cwmpasu rhai o gymunedau tlotaf ein gwlad. Mae angen i gynlluniau lleihau tlodi a datrys anghydraddoldebau gofal cymdeithasol fod wrth wraidd cymorth gofal cymdeithasol i deuluoedd, ac ar yr agenda er mwyn lleihau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod. Mae rhaglenni atal ac ymyrraeth gynnar, fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn rhan allweddol o'n hymateb i'r her o fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a chreu teuluoedd a chymunedau cryfach a mwy cydnerth.

Gwyddom fod gwaith atal ac ymyrraeth gynnar da yn gallu'n helpu ni i weld problemau'n gynt, a'u rhwystro rhag mynd o ddrwg i waeth. Mae buddsoddi mewn cymorth i deuluoedd agored i niwed sydd ar ffiniau gofal, lle mae'n ddiogel ac yn briodol i wneud hynny, yn gallu helpu nid yn unig i leihau nifer y plant mewn gofal ond hefyd rhyddhau adnoddau awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar gamau ataliol (a chymorth gwell i blant mewn gofal). Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n destun pryder arbennig fod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn dweud bod bygythiad i wasanaethau sy'n darparu cyfleusterau 'mynediad agored' sy'n cefnogi plant, pobl

ifanc a'u teuluoedd yn eu cymdogaethau a'u cymunedau eu hunain, ac yn mynd i'r afael yn gynnar â chanlyniadau byw gydag anfantais gymdeithasol.

Argymhellion

- 1. Dylai bod gan bob awdurdod lleol strategaeth neu raglen newid gydlynol sy'n esbonio sut mae'n bwriadu lleihau'n ddiogel nifer y plant sydd angen gofal trwy helpu teuluoedd sydd angen cymorth ychwanegol.**

Dylai'r strategaeth ystyried y ffordd orau o ddarparu a threfnu ystod eang o wasanaethau cymorth i deuluoedd o fewn fframwaith sy'n helpu pobl i ddeall pa gymorth sydd ar gael a sut mae'r system gyfan i fod i weithio. Mae'r strategaeth yn debygol o gynnwys y model gwasanaeth cyffredinol (neu debyg) sydd yn Atodiad 3. Mae'n ffordd ddefnyddiol o gysyniadu a llywio newid system gyfan, gan gydnabod yr angen am gyfraniadau effeithiol gan wasanaethau cyffredinol a rhai sy'n diwallu anghenion y grwpiau mwyaf agored i niwed. Efallai bod angen ei haddasu rywfaint i sicrhau bod strategaethau'n rhoi pwyslais ar helpu plant i adael gofal hefyd, os mai dyna sydd orau iddynt.

- 2. Dylai'r strategaeth egluro sut mae'r awdurdod a'i bartneriaid yn bwriadu comisiynu a darparu'r gwasanaethau gofynnol i ddiwallu'r anghenion a aseswyd, gyda mandad clir ar ymgysylltu'n effeithiol gyda'r trydydd sector oherwydd ei rôl allweddol yn cynllunio a chyflwyno cymorth i deuluoedd.**

Bydd angen i'r strategaeth fynd i'r afael â phryderon am sut gall asiantaethau reoli'r holl anghenion a nodwyd, ar y cyd ac yn unigol. Bydd yn llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau sy'n ymatebol, yn berthnasol, yn hyblyg, wedi'u targedu ac sy'n gweithio yn ôl cryfderau teuluoedd. Dylai bod cryn bwyslais ar berthynas waith, cyngor ymarferol ac ymdrin ag argyfyngau teuluol trwy gyfrwng cymorth uniongyrchol a dwys.

Rhagwelir y bydd gwasanaethau'n cael eu cynllunio ar y cyd, gydag elfennau cryf o gyd-gynhyrchu. Mae hyn yn golygu hyrwyddo Hawliau Plant a chyfranogiad teuluoedd, gan sicrhau bod pobl nid yn unig yn gwrando ar lais plant a theuluoedd ond yn gweithredu arno hefyd er mwyn gwella gwasanaethau. Mae rôl gwasanaethau eiriolaeth i blant a rhieni yn hollbwysig wrth gynllunio/adolygu gwasanaethau ac mewn rhai meysydd rheoli achosion unigol. Y nod yw sicrhau bod yr holl ymarferwyr perthnasol yn gallu helpu i feithrin perthynas ystyrion â phlant a theuluoedd sy'n annog cydweithredu. Byddai'n ddefnyddiol pe bae'ch awdurdodau lleol yn ystyried mabwysiadu *Mutual Expectations - A charter for parents and local authority children's*

services, a ddatblygwyd gan Your Family/Your Voice. Dylai partneriaethau lleol ddisgrifio sut bydd eu strategaeth yn ystyried y fframwaith ar gyfer cyrff cyhoeddus i weithredu Hawliau Plant yng Nghymru, a ddisgrifiwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn. Hefyd, mae angen iddynt annog dull sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n cydnabod rôl gwasanaethau sy'n gweithio gydag oedolion yn bennaf o ran rhoi cymorth i deuluoedd.

Mae ymchwil arferion da yn dangos y bydd angen i'r strategaeth gynnwys elfennau allweddol cymorth a chefnogaeth fel a ganlyn:

- Gwasanaeth ymateb cyflym/ar ffiniau gofal sy'n sicrhau bod cymorth brys a dwys ar gael i blant sydd ar ffiniau gofal (gan gynnwys rôl benodol i'r Gwasanaeth neu'r Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd).
- Darparu gwasanaeth ailuno er mwyn helpu plant i ddychwelyd adref o ofal neu newid eu statws cyfreithiol.
- Gwasanaethau i helpu teuluoedd sy'n profi cam-drin domestig neu broblemau treisgar/iechyd meddwl/camddefnyddio sylweddau
- Cynadleddau grwpiau teulu neu gynlluniau tebyg, sydd ar waith ar draws yr holl gontinwrm gofal a chymorth, yn enwedig dan amgylchiadau lle mae penderfyniad yn cael ei wneud am blentyn yn symud i'r system ofal (heblaw fel achos o argyfwng).
- Eiriolaeth a mentora i rai rhieni, yn enwedig rhai sydd â phlant mewn gofal.
- Polisi cyfredol ar amgylchiadau lle mae teulu a ffrindiau yn mynd ati i ofalu am blant, gydag ymrwymadau clir gan bob rhan berthnasol o'r awdurdod lleol a gan sefydliadau partner.
- Gwasanaeth Myfyrio sy'n helpu rhieni â phroblemau a arweiniodd at gymryd eu plant o'u gofal.
- Cymorth therapiwtig penodol (gweler Argymhelliad 9).
- Gwasanaethau cymorth i deuluoedd sy'n helpu plant i adael gofal ac aros gyda'u gofalwyr newydd, gan gynnwys cymorth ôl-fabwysiadu a chymorth i deuluoedd gyda gorchmynion gwarchodaeth arbennig.
- Gwasanaeth sy'n helpu teuluoedd i baratoi at enedigaeth a babandod, lle mae pryderon am allu'r rhieni.
- Gwybodaeth, cyngor a chymorth/Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd.
- Gwasanaethau cymorth cynnar a rhai ataliol eraill sy'n seiliedig ar ddatblygiad cymunedol a lleihau tloedi, fel canolfannau i deuluoedd yn y gymdogaeth.
- Dechrau'n Deg (gan gynnwys allgymorth).
- Gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf sy'n cyfrannu at Flaenoriaeth 2 (lleihau nifer y plant sydd angen gofal) a Blaenoriaeth 3 (targedu'r plant mwyaf agored i niwed nad ydynt ar gynllun gofal a chymorth).
- Ymyriadau sy'n cynyddu adnoddau teuluoedd mewn meysydd fel cyllid, llety neu reoli effaith anabledau.

- 3. Dylai cynlluniau gweithredu fynd i'r afael â'r modd mae teuluoedd yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau hyn (yn enwedig trwy hybiau neu bwyntiau cyswllt unigol integredig) a disgrifio'r 'lwybrau gofal' sy'n bodoli i'w helpu i ymdopi â'r hyn sy'n gallu bod yn set gymhleth iawn o brosesau a gwasanaethau.**

Mae angen cyfleu'r strategaeth yn dda i'r holl randdeiliaid, gan gynnwys plant a theuluoedd. Yn aml, mae'n anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd gael darlun digon clir o bwy sy'n gwneud beth a pham, yn enwedig wrth wahaniaethu rhwng nifer o brosiectau a rhaglenni ar raddfa gymharol fach. Efallai bod cydlynu yn achosi problemau i bawb ac yn cymryd gormod o amser. Gall plant a theuluoedd wynebu amrywiaeth eang o lwybrau gofal sy'n eu harwain at, drwy a thu hwnt i'r ystod o wasanaethau sy'n cael eu cynnig. Weithiau, mae staff yn cael trafferth sicrhau bod systemau atgyfeirio a rhannu gwybodaeth yn gweithio'n ddigon effeithiol ac effeithlon. Mae perygl gwirioneddol o ddyblygu, ac o beidio â gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin. Dylai'r rhai sy'n gyfrifol am y strategaeth ystyried ymhellach sut y gallai systemau rheoli achosion/systemau gwybodaeth electroneg fel System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) helpu i gynllunio a chyswllt da. Dylai asiantaethau perthnasol gyfrannu'n briodol at sicrhau bod hybiau neu bwyntiau cyswllt unigol yn gweithio'n effeithiol, yn enwedig sicrhau bod y dulliau ymarfer wedi'u llywio gan ymchwil am effeithiau trawma a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod.

- 4. Dylai'r strategaeth gyd-fynd yn agos â chynlluniau corfforaethol eraill yr awdurdod lleol ar gyfer meysydd perthnasol fel cyllid, y gweithlu, gweithio mewn partneriaeth, rhianta corfforaethol a diogelu.**

Bydd angen i bob awdurdod lleol ystyried hefyd a yw ei strwythurau gweithredol a strategol yn sicrhau ei fod yn gallu cyflawni cysylltiadau trawsawdurdod effeithiol rhwng y cyfarwyddiaethau gwahanol, yn enwedig lle mae cyfrifoldeb ar wahân am wasanaethau cymdeithasol 'statudol' i blant ac am wasanaethau atal wedi'u targedu (gan gynnwys gwasanaethau fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg). Mae cydleoli staff yn debygol o fod yn elfen allweddol. Dylai staff deimlo bod y strategaeth wedi'i gwreiddio ac yn perthyn i'r awdurdod cyfan. Mae cydlynu cyfrifoldebau statudol ledled cyngor cyfan yn effeithiol mewn meysydd fel diogelu a rhianta corfforaethol yn cael eu gwreiddio fwyfwy mewn trefniadau gweithredol, craffu ac uwchreoli mewn awdurdodau lleol. Rhaid rhoi cryn flaenoriaeth a sylw i'r meysydd gwaith hyn. Bydd awdurdodau lleol am sicrhau bod swyddogaethau tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu cyflwyno mewn ffyrdd sy'n sicrhau dull cydlynol a chyffredinol o ddarparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd.

- 5. Dylai aelodau etholedig ac uwch-reolwyr corfforaethol fonitro effeithiolrwydd y strategaeth hon yn rheolaidd, gyda threfniadau rheoli perfformiad sy'n mesur yr effaith ac sy'n cynnwys adborth gan blant a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaethau.**

Mae'r newidiadau sy'n ofynnol i batrwm cyffredinol gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn gynhenid gymhleth; ac yn gofyn am ymrwymiad dros gyfnodau sylweddol. Mae meysydd llwyddiannus hyd yn oed yn gorfod dod o hyd i ffyrdd o adolygu ac adnewyddu eu rhaglenni diwygio gwasanaethau, er mwyn ymdrin â materion newydd neu unrhyw achos o golli momentwm. Mae'n anodd cadw golwg ar beth sy'n digwydd a monitro'r effaith. Mae angen i systemau rhannu gwybodaeth am berfformiad a setiau data fod yn fwy cadarn ac yn haws i'w defnyddio. Dylai blaenoriaethau fod yn seiliedig ar ddadansoddiad a thystiolaeth gadarn. Eto, efallai bod manteision i ddefnyddio System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) er mwyn darparu cronfa ddata a rennir i awdurdodau lleol a phartneriaid allweddol.

6. Dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wneud cyfraniad blaenllaw at helpu i greu a gweithredu'r strategaeth, gan ddarparu'r cymorth angenrheidiol mewn meysydd fel integreiddio, trothwyon a mabwysiadu modelau system gyfan fel 'arwyddion diogelwch neu gydnerthedd'.

Dylai Byrddau Diogelu Rhanbarthol a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol helpu ardaloedd lleol i gyflawni holl fanteision gweithio mewn partneriaeth, a sicrhau'r cydlyniant gorau posib rhwng cyfrifoldebau atal a diogelu. Mae angen mabwysiadu agwedd gyson at feini prawf mynediad neu drothwyon ledled gwasanaethau plant. Mae'n bwysig canfod ffyrdd effeithiol o reoli rhai elfennau risg (lle bo modd) o fewn gwasanaethau ataliol, yn hytrach na thrwy ddefnydd cynnar o weithdrefnau gofal neu ymyrraeth 'statudol'. Dylai'r holl randdeiliaid fod yn hyderus bod y gwaith hwn yn cael ei wneud yn ddiogel, gyda chanlyniadau da.

Dylai'r ddau gorff ddarparu cyfleoedd i sicrhau cymeradwyaeth amlasiantaeth ar gyfer newid system gyfan a fydd yn: lleoli rhagor o waith rheoli risg ymhellach i lawr y continwum cymorth. Mae hyn yn golygu:

- rhannu cyfrifoldebau (nid dim ond atgyfeirio);
- cymeradwyo modelau newydd o ddarparu;
- tawelu meddwl rhai â phryderon dilys am y cyfeiriad yn y dyfodol;
- annog gwaith integredig.

Mae darparu ystod effeithiol o wasanaethau cymorth i deuluoedd, yn enwedig ar ffiniau gofal, yn golygu bod angen i'r holl asiantaethau perthnasol roi blaenoriaeth allweddol i arweinyddiaeth a chyfrifoldebau gweithredol ar gyfer yr agenda hon. Fel y nodwyd yn adroddiad *Care Crisis Review: Summary of the Options for Change*, "social care leaders and partner agencies need to regularly review their organisation's systems and practice against the messages from research about (a) effective interventions and relationship-based practice and (b) agency vision."

- 7. Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau o ran asesu anghenion, gwaith cynllunio a chomisiynu, dylai awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol archwilio i ba raddau y mae gwasanaethau therapiwtig presennol (sy'n cynnig cymorth emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl) yn gallu diwallu anghenion a nodwyd, yn enwedig i'r plant hynny sydd ar ffiniau gofal.**

Mae hyn yn cynnwys y cymorth amlddisgyblaethol a roddir i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o niwed sylweddol oherwydd eu hymddygiad, neu sydd â phroblemau cydnerthedd emosiynol sy'n amharu'n sylweddol ar eu datblygiad. Er gwaetha'r buddsoddiad ychwanegol mewn CAMHS a gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, mae plant sy'n byw yn y gymuned â phroblemau seicolegol (wedi'u hachosi'n aml gan brofiadau niweidiol difrifol yn ystod plentyndod) heb eu datrys ac wedi ymwreiddio, yn methu cael mynediad amserol i'r cymorth a'r gefnogaeth gynnar sydd eu hangen arnynt yn llawer rhy aml. Mewn rhai ardaloedd, mae hyd yn oed plant sy'n bodloni trothwyon cymorth CAMHS yn methu cael cymorth effeithiol. Er bod pocedi o arferion da, gan gynnwys lleoedd lle mae adrannau gwasanaethau cymdeithasol i blant wedi ariannu swyddi seicolegwyr, nid dyna'r achos yn gyson. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried i ba raddau mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflawni rôl arweinyddiaeth effeithiol wrth wella gwasanaethau mewn ardal lle mae dulliau amlddisgyblaeth ac amlasiantaeth integredig o weithio yn hollbwysig.

- 8. Yn eu cynlluniau ariannol, dylai awdurdodau lleol a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol esbonio sut maen nhw'n bwriadu ariannu ystod briodol ac effeithiol o wasanaethau cymorth i deuluoedd, yn enwedig y gwasanaethau hynny sy'n helpu plant ar ffiniau gofal i aros gyda'u teuluoedd. Mae hyn yn cynnwys gwneud defnydd da o unrhyw grantiau a chyfleoedd i sicrhau hyblygrwydd o ran grantiau.**

Nod y buddsoddiad mewn gwasanaethau ataliol, ar ffiniau gofal a gwasanaethau cymorth teuluol eraill yw sicrhau canlyniadau gwell i blant. Mae Prosiect Esgeulustod Cymru a'r ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd yn dangos, lle mae modd rheoli pryderon yn effeithiol heb symud plant oddi wrth eu teuluoedd, bod hyn yn helpu plant gyda'u hymdeimlad o berthyn, hunaniaeth a llesiant, ac yn osgoi'r peryglon o'u gosod mewn lleoliadau niferus neu leoliadau'n methu. Rydym yn rhagweld y bydd strategaethau llwyddiannus i gefnogi teuluoedd yn helpu asiantaethau hefyd i fynd i'r afael â rhywfaint o'u problemau rheoli adnoddau, costau a'r galw am wasanaeth. Gall gwasanaethau o'r fath wneud cyfraniad hollbwysig at sicrhau gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol darbodus a lleihau troseddau.

Ar lefel awdurdod lleol, mae'n ymddangos bod cryn wahaniaethau yn y ffordd mae asiantaethau unigol yn ymrwymo i rannu cyfrifoldebau am wasanaethau ataliol a gwasanaethau eraill sy'n rhoi cymorth i deuluoedd. Byddai'n ddefnyddiol pe bai

Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn edrych eto ar y fframweithiau a ddefnyddir i gynllunio gwasanaethau plant ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, er mwyn cydnabod cyfraniadau'r gwasanaethau tai, adrannau addysg, chwarae, hamdden, gwasanaethau ieuencid, gwasanaethau cyfiawnder ieuencid, y GIG, yr heddlu a'r trydydd sector. Un maes sy'n achosi pryder penodol yw'r dystiolaeth o'r prinder cynyddol o gyfleusterau 'mynediad agored' sy'n helpu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn eu cynefin, ac sy'n mynd i'r afael â goblygiadau byw dan anfantais gymdeithasol o oedran ifanc iawn. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo'n benodol i roi arweinyddiaeth ar y mater hwn.

Os bydd angen mynd i'r afael â materion rheoli adnoddau sy'n bygwth cynaliadwyedd a chydnerthedd y gwasanaeth, rhaid i brosesau pennu cyllid ar gyfer gwasanaethau plant fod yn fwy clir a chael eu strwythuro'n well. Byddai hyn yn annog 'gofal cymdeithasol darbodus' a gwerth am arian ledled gwasanaethau cyhoeddus. Dylai llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill ystyried dulliau o gyllido gwasanaethau cymorth i blant a theuluoedd a fydd yn helpu ymdrechion i gysoni gwasanaethau cymorth cynnar (gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chymorth), gwaith atal wedi'i dargedu (e.e. Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf) ac ymyrraeth trydedd haen/mwy 'statudol'. Mae angen i awdurdodau lleol sicrhau'r cydbwysedd gorau posib rhwng cyllidebau ar gyfer y gwasanaethau hyn a lleoliadau gofal.

Gyda llywodraeth Cymru, dylai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol archwilio i ba raddau y gallant ysgwyddo cyfrifoldebau newydd dros wasanaethau plant a dyrannu'r buddsoddiad o £15 miliwn y flwyddyn nesaf er mwyn ehangu gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. O gofio'r pwysau ar adnoddau ar hyn o bryd a maint yr angen, mae'n hollbwysig bod yr arian hwn yn cael ei ddefnyddio mor effeithiol â phosib, gyda strategaethau comisiynu a chynlluniau gwasanaeth. Bydd angen i'r Byrddau fod yn allweddol wrth gynllunio gwasanaethau plant a ddylai gael eu darparu ar raddfa llawer mwy nag ardaloedd awdurdodau lleol. Rydym yn gwybod am enghreifftiau o arferion da, gyda rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi gweledigaeth ar y cyd ar gyfer gwasanaethau plant ac yn cyflwyno trefniadau ar gyfer goruchwylio'r rhaglen newid sydd ei hangen ar gyfer y ddarpariaeth. Fodd bynnag, rhaid inni hefyd gydnabod yr heriau sylweddol sy'n wynebu Byrddau wrth ymateb i ddisgwyliadau cynyddol a monitro'r effaith ar y canlyniadau i blant a theuluoedd.

9. Dylai Byrddau Diogelu Lleol helpu asiantaethau er mwyn sicrhau bod y dulliau system gyfan o ddarparu gwasanaethau cymorth i deuluoedd yn gallu rheoli risgiau'n effeithiol ac effeithlon.

Gallant wneud hyn trwy helpu asiantaethau lleol yn y meysydd ymarfer canlynol.

- Dylai partneriaid diogelu sicrhau bod eu cynlluniau a'u trefniadau craffu yn cynnwys pwyslais ar blant a theuluoedd ar ffiniau gofal, ac sydd yn y system ofal, gyda datganiad o fwriad clir am sut bydd yr holl bartneriaid yn cydweithio i atal plant rhag cael eu rhoi mewn gofal, neu aros mewn gofal, yn ddiangen.

- Mae angen i staff sy'n gweithio ar ffiniau gofal ac mewn gwasanaethau dwys eraill fod â pholisïau, canllawiau ymarfer ac adnoddau parod sy'n eu helpu i weithio'n effeithiol yn y cyd-destun hwn a rheoli risgiau'n hyderus.
- Dylid gwneud defnydd priodol o adnoddau seiliedig ar dystiolaeth er mwyn asesu a thrin risgiau sy'n llywio gweithwyr proffesiynol o bob asiantaeth berthnasol, sy'n creu asesiadau cyson, yn sicrhau cyfraniad amlasiantaeth at reoli achosion a sicrhau lefelau digonol o oruchwyliaeth a throsolwg clinigol.
- Dylai staff ystyried eu cyfrifoldebau'n ofalus o ran defnyddio dulliau adferol, atal yn gynnar ac ymyriadau wedi'u targedu er mwyn rhwystro anghenion rhag cynyddu a lleihau'r tebygolrwydd o gychwyn gweithdrefnau gofal. Mae hyn yn golygu cael llwybrau gofal sy'n annog lleihau problemau, gan gynnwys opsiynau fel Cynadleddau Grŵp Teulu.
- Rhaid i staff o bob asiantaeth ddeall bod angen ennill ymddiriedaeth gan rieni a gofalwyr fel bod ymdeimlad o gydgyfrifoldeb dros leihau'r risgiau i blant o fewn a thu allan i'r teulu.
- Rhaid i blant a theuluoedd gael cymorth i geisio ailuno (lle bo'n briodol) neu ymdrin â thrawma gwahanu.
- Dylid defnyddio llwybrau y cytunwyd arnynt i weithredu'n brydlon ac effeithiol os bydd achos llys yn angenrheidiol, gan wneud gwaith priodol a chymryd penderfyniadau tryloyw a chyson i gynhyrchu'r dystiolaeth sy'n ofynnol mewn da bryd.
- Dylid cefnogi'r gwaith sy'n cael ei wneud i adolygu a diwygio'r Cod Ymarfer perthnasol a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan fel bod yr egwyddorion sy'n sail i'r ddeddfwriaeth, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu gyda theuluoedd, wedi'u mynegi'n glir a bod prosesau rheoli achosion unigol yn adlewyrchu'r negeseuon o waith ymchwil ar effeithiolrwydd ymarfer seiliedig ar berthynas. Dylai bod yn ofynnol i bartneriaid diogelu statudol ddefnyddio gwybodaeth ac arbenigedd plant a theuluoedd i lywio cynllun, polisïau a darpariaeth gwasanaethau.
- Mae angen i lysoedd lleol a CAF/CASS ddangos eu cefnogaeth i awdurdodau lleol trwy weithredu strategaethau effeithiol i leihau nifer y plant sydd angen bob mewn gofal.

10. Rhaid i Fyrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol ac awdurdodau lleol gydweithio i ddatrys gwahaniaethau mewn lefelau perfformiad, gwella cysondeb o ran mabwysiadu arferion gorau ar draws asiantaethau a datblygu rhagor o waith amlddisgyblaeth ar draws y system cyfiawnder teuluol trwy weithredu atebion lleol i broblemau lleol. Mae hyn yn cynnwys darparu strategaethau i leihau nifer y plant sydd angen gofal trwy gynyddu'r defnydd o waith dwys, seiliedig ar berthynas gyda'r teulu cyfan, er mwyn cyflawni'r newidiadau sydd eu hangen i fagu plant yn well ac osgoi'r orddibyniaeth ar benderfyniadau llys.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi gwneud gwelliannau mawr yn y modd y caiff achosion gofal eu rheoli. Mae llysoedd lleol yn dangos cryn dipyn o ymddiriedaeth yn asesiadau, cynlluniau ac ymarfer awdurdod lleol lleol mewn perthynas â phlant agored i

niwed. Mewn llyfyrdd eraill, gall fod gwahaniaethau di-fudd yn y ffordd y dehonglir y fframwaith statudol. Mae angen i'r system gyffredinol gael ei llywio gan ddealltwriaeth well o'r gwasanaethau newydd dwys, wedi'u seilio yn y gymuned, fel bod pawb sy'n gweithio ynddi yn gallu osgoi ymarfer sy'n rhy amharod i gymryd risg. Mae hyn yn golygu:

- datblygu a gweithio i ddealltwriaeth ehangach o lawer o berfformiad da yn hytrach na chwblhau achosion gofal yn brydlon;
- hyfforddiant amlddisgyblaeth a chyfnewid gwybodaeth;
- trafod ymarfer lleol;
- plant a theuluoedd yn helpu i gynllunio systemau fel bod eu lleisiau'n cael eu clywed.

Dylai'r Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol yng Nghymru sicrhau bod pawb yn mynd i'r afael â'r materion hyn yn effeithiol.

11. Dylai cyrff cenedlaethol fel Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol ystyried negeseuon y *Care Crisis Review: Summary of the Options for Change* fel bod eu gwaith yn hyrwyddo gallu awdurdodau lleol a'u partneriaid i gyflawni eu dyletswyddau i helpu teuluoedd a hyrwyddo magu plant o fewn eu teulu.

Yn arbennig, mae angen i'r cyrff hyn ymateb yn ffurfiol i'r canlynol:

Dewis 2	Hyfforddi a datblygu
Dewis 4	Arolygiadau
Dewis 7	Teulu a ffrindiau yn gofalu am blant
Dewis 8	Cyngor ac eiriolaeth
Dewis 9	Defnyddio llety gwirfoddol (adrannau 76 a 34 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014)
Dewis 10	Ymarfer cyn-achos
Dewis 11	26 wythnos fel targed perfformiad
Dewis 12	Achosion llys
Dewis 13.	Ailuno
Dewis 14.	Cymorth ar ôl achos i deulu, ffrindiau a gofalwyr
Dewis 16.	Byrddau Cyfiawnder Teuluol
Dewis 18.	Effaith polisiau'r llywodraeth
Dewis 19.	Prinder adnoddau
Dewis 20.	Materion ymchwil

ATODIAD 1

GRŴP CYNGHORI'R GWEINIDOG

MAES GWEITHREDU 1: LLEIHAU'N DDIOGEL NIFER Y PLANT SYDD ANGEN GOFAL TRWY DDARPARU CYMORTH SY'N YMATEBOL A DEFNYDDIOL I DEULUOEDD

Canlyniad: Helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd a lleihau'n ddiogel yr angen i blant dderbyn gofal trwy reoli risg yn hyderus ac effeithiol wrth drefnu cymorth i deuluoedd lle mae angen diogelu plant a/neu os ydynt yn cael eu hystyried 'ar ffiniau gofal'.

Beth fydd llwyddiant yn ei olygu?

- lleihau'r angen i blant fynd i ofal a chynyddu'r defnydd o ailuno teuluoedd ar gyfer plant sydd wedi profi gofal;
- dull integredig a chyfannol o ddarparu cymorth ledled meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai, y trydydd sector a chymunedau;
- torri'r cylch o fod mewn gofal o un genhedlaeth i'r llall;
- newid cynaliadwy, system gyfan, sy'n seiliedig ar ymateb da i anghenion yn y gymuned.

Pa feysydd sydd o fewn cylch gwaith y llif gwaith?

- nodi arferion gorau mewn gwasanaethau 'ar ffiniau gofal';
- deall anghenion plant, gwranddo ar deuluoedd a chymunedau;
- archwilio modelau gwasanaeth newydd a dulliau adferol ar gyfer plant a theuluoedd sy'n derbyn gofal a chymorth;
- asesu risg/anghenion diogelu, cynllunio a llwybrau gofal a chymorth;
- trefniadau diogelu effeithiol, o fewn awdurdod lleol a chan bartneriaid perthnasol;
- monitro effaith strategaethau dargyfeirio plant a phobl ifanc o ofal;
- cyd-gynhyrchu.

Egwyddorion cynllunio

- i. Dylai cynlluniau gwasanaethau plant ym mhob ardal awdurdod lleol: ddangos dealltwriaeth o anghenion a gofynion y boblogaeth; sicrhau bod gwasanaethau priodol ar waith; hybu integreiddio; cyfrannu at ddatblygu gweithlu medrus a chymwys.
- ii. Mae'r rhan fwyaf o blant yn debygol o ffynnu a chael canlyniadau da os ydynt yn cael gofal gan eu teuluoedd eu hunain, a dylent gael cymorth i ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain a'u cymunedau ar adegau anodd.
- iii. Dylid darparu asesiad cymesur, gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn helpu plant mewn angen a'u teuluoedd yn gyflym er mwyn rhoi pob cyfle iddyn nhw aros gyda'i gilydd.
- iv. Mae'r modelau gofal newydd sy'n cael eu datblygu ledled Cymru yn rhannu rhai nodweddion cyffredin ac ethos 'tîm o amgylch y teulu': dull amlddisgyblaeth eang lle mae pobl sydd wedi'u hyfforddi'n dda ag ystod o sgiliau'n cydweithio'n effeithiol ac yn cysylltu'n dda â'u sefydliad eu hunain.
- v. Mae cyfrifoldeb ar bob gwasanaeth cyhoeddus sy'n darparu ar gyfer plant a theuluoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau lles cymdeithasol a helpu plant a phobl ifanc sydd angen gofal a chymorth, yn enwedig os yw hyn yn lleihau'r tebygrwydd o fynediad diangen i ofal.
- vi. Mae gan bob asiantaeth a gweithiwr proffesiynol gyfrifoldeb dros sicrhau bod gwasanaethau cymorth yn cael eu defnyddio'n briodol, mewn ffyrdd sy'n mynd i'r afael â risgiau ac sy'n adeiladu ar gryfderau teuluoedd. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol a'u partneriaid yw sicrhau bod cymorth teuluol dwys ar gael ar sail amlasiantaeth i deuluoedd â phlant neu bobl ifanc ar ffiniau gofal.
- vii. Dylai cymorth teuluol dwys fod yn seiliedig ar ymarfer amlasiantaeth cadarn sy'n cyflwyno: trefniadau cyfeirio ac atgyfeirio effeithiol; asesiad cymesur sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau; cynlluniau gofal a chymorth da; gwaith a darpariaeth gwasanaeth seiliedig ar berthynas.
- viii. Mae sicrhau gwerth gorau wrth ddefnyddio adnoddau prin trwy gynllunio gwasanaethau effeithiol ac effeithlon yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth cymorth a chefnogaeth yn ymateb i anghenion a safbwyntiau plant a theuluoedd o bob lefel (cyffredinol, wedi'u targedu a chymhleth).

ATODIAD 2

CWESTIYNAU ALLWEDDOL

A. Hyd a lled y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd

Cwestiwn pwysig: I ba raddau mae'r newidiadau i'r patrymau o ddarparu gwasanaethau plant a theuluoedd wedi helpu i sicrhau bod teuluoedd sy'n arbennig o agored i niwed yn derbyn lefel addas o gymorth, sy'n cyd-fynd â chynlluniau gofal a chymorth.

- A1. Yw'r amrywiaeth gyfredol o wasanaethau, yn enwedig rhai ar ffiniau gofal, yn diwallu anghenion a aseswyd (e.e. oedi neu restri aros)?
- A2. Yw'r gwasanaethau, yn enwedig rhai ar ffiniau gofal, yn ymateb yn dda i broblemau ac argyfyngau (e.e. hyblygrwydd)?
- A3. Yw'r gwasanaethau'n ddigon cytbwys i wneud y defnydd gorau o gyfraniad pob asiantaeth a sefydliad perthnasol?
- A4. Yw atal yn gynnar ac ymyrraeth wedi'i thargedu yn rhan o gontinwwm effeithiol a chydlynol o gymorth ac ymyrraeth i deuluoedd, gan alluogi hyblygrwydd i fodloni lefelau gwahanol o anghenion (gan gynnwys symud o wasanaethau ar ffiniau gofal a Dechrau'n Deg/Teuluoedd yn Gyntaf/Cefnogi Pobl/Cymunedau yn Gyntaf)?
- A5. A oes trefniadau da i ymgynghori â phlant a theuluoedd ynglŷn â pha mor effeithiol yw'r gwasanaeth o ran darparu canlyniadau gwell a nodi bylchau?

- A6 A oes parodrwydd a gallu i ddyrannu lefel briodol o adnoddau ar gyfer atal ac ymyrraeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac wedi'u seilio yn y gymuned?
- A7. A oes gan wasanaethau plant a theuluoedd, yn enwedig rhai ar ffiniau gofal, amcanion clir ac a ydynt yn monitro eu heffaith yn ddigon cadarn?

B. Ymdrin â phroblemau ymarfer a'r gweithlu

Cwestiwn pwysig: I ba raddau mae problemau'r gweithlu ac ymarfer gwaith proffesiynol wedi'u datrys fel bod gwasanaethau (rhai ataliol ac arbenigol) yn defnyddio dulliau'n gyson sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a seiliedig ar gryfderau wrth weithio gyda phlant a theuluoedd?

B1. Oes gan yr awdurdod lleol strategaeth ar gyfer y gweithlu (yn seiliedig ar wybodaeth gynhwysfawr a dibynadwy) sy'n sicrhau bod gan wasanaethau plant a theuluoedd ddigon o staff, gyda chymwysterau, hyfforddiant, profiad a sgiliau priodol.

B2. Oes gan staff sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd – a gweithwyr cymdeithasol yn arbennig - ddigon o amser i ddarparu cymorth ac ymyriadau priodol, sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, i blant a theuluoedd (yn enwedig plant ar ffiniau gofal)?

B3. Yw'r holl randdeiliaid perthnasol, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol a'u rheolwyr, yn gweithredu ar y sail bod dyletswydd i ddefnyddio ymyrraeth wedi'i thargedu ac atal yn gynnar er mwyn rhwystro anghenion rhag cynyddu?

B4. A oes dull clir o ddarparu ymarfer gwaith cymdeithasol a therapiwtig cymhleth ar waith sy'n cael ei ddeall a'i weithredu (lle bo'n berthnasol) gan randdeiliaid?

B5. Yw llysoedd, CAF/CASS a thîm cyfreithiol y Cyngor yn cytuno â'r strategaeth i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, ac ydyn nhw'n ymddiried yn asesiadau ac ymarfer awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant agored i niwed?

B6 A oes llwybrau a phroses borthgadw amlasiantaeth clir ar gyfer gofal a chymorth, sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion ar y lefel gywir a rheoli'r galw (yn enwedig ar gyfer gwasanaethau ffiniau gofal)?

C. Modelau system gyfan a gweithio mewn partneriaeth

Cwestiwn pwysig: I ba raddau mae cydweithio a phartneriaethau ar draws gwasanaethau plant a gyda rhanddeiliaid allanol yn golygu bod cymorth i blant a theuluoedd yn flaenoriaeth i wasanaethau cyhoeddus, wedi sicrhau cymorth therapiwtig gwell ac atal yr angen am achosion gofal?

C1. A oes diwylliant o gefnogaeth a herio ar y cyd, er mwyn helpu i wella gwasanaethau neu newid patrymau gwasanaeth?

C2. Yw strwythurau a phrosesau cynllunio ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd yn ymgysylltu'n effeithiol â'r holl rhanddeiliaid pwysig?

C3 Yw cynlluniau neu strategaethau gwasanaeth a chomisiynu ar gyfer gwasanaethau plant a theuluoedd wedi'u seilio'n gadarn ar ddadansoddiad o anghenion a gofynion y gwasanaeth, gan gynnwys data cyfanredol o gynlluniau gofal a chymorth?

C4. Oes gan awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol fodolau gofal clir (e.e. Signs of Safety), sy'n cynnwys adolygiad rheolaidd o weithredu ac effaith?

C5. Yw'r holl rhanddeiliaid perthnasol wedi mabwysiadu'r strategaeth; ydyn nhw'n deall goblygiadau lleoli mwy o risg ymhellach i lawr y continwwm cymorth ac ydyn nhw'n rhannu'r cyfrifoldeb dros wneud hynny?

C6. Oes gan asiantaethau diogelu lleol systemau ac adnoddau priodol ar gyfer cydweithio i reoli risg ar draws continwwm darparu gofal (yn enwedig yn nhermau gwasanaethau ar ffiniau gofal)?

C7. Yw rhanddeiliaid yn casglu gwybodaeth o'r radd flaenaf sy'n rhoi syniad o ba mor effeithiol mae'r system yn gweithio i ddiogelu a helpu plant a'u teuluoedd?

D. Arweiniad strategol

Cwestiwn pwysig: I ba raddau mae'ch strategaethau wedi helpu i ddatblygu gwasanaethau effeithiol ar ffiniau gofal, cadw teuluoedd gyda'i gilydd a lleihau'n ddiogel yr angen i blant fod mewn gofal?

D1. Yw'r awdurdod lleol yn gyffredinol (gwleidyddol a chorfforaethol) yn gallu cyfrannu'n dda at gyflawni cyfrifoldebau statudol gwasanaethau plant?

D2. Oes gan yr awdurdod lleol drefniadau effeithiol ar gyfer gweithio gydag eraill (asiantaethau statudol, sefydliadau'r trydydd sector a theuluoedd) fel ei fod yn gallu llywio patrwm a darparu gwasanaethau plant a theuluoedd?

D3. Yw'r awdurdod lleol a'i bartneriaid yn gwneud defnydd da o adnoddau a phrosesau pennu cyllideb (gan gynnwys dyrannu grantiau) er mwyn cyflawni eu hymrwymadau strategol i wasanaethau plant a'u hailgyflunio lle bo angen?

D4. Yw gwasanaethau plant yn gallu bodloni ymrwymadau ac aros o fewn cyllidebau a ddyrannwyd?

D5. A oes strategaeth benodol ar waith i leihau'n ddiogel yr angen i blant dderbyn gofal, ac a yw holl aelodau'r timau uwch arweinwyr, gan gynnwys uwch-swyddogion corfforaethol ac aelodau etholedig yn deall y strategaeth yn effeithiol?

D7. Oes gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid systemau ar waith i nodi arwyddion rhybudd cynnar o broblemau difrifol o ran darparu gwasanaethau plant a theuluoedd?

D8 Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud er mwyn cynorthwyo strategaethau llwyddiannus i ddatblygu gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gan gynnwys ffiniau gofal?

ATODIAD 3

MODEL SGRIN WYNT AR GYFER DARPARU GWASANAETHAU CYMORTH I DEULUOEDD

Yng nghanllawiau cyntaf Teuluoedd yn Gyntaf yn 2011, dywedodd Llywodraeth Cymru y dylai awdurdodau lleol ac asiantaethau partner fabwysiadu'r Model Sgrin Wynt. Mae'n dangos y berthynas rhwng gwasanaethau cyffredinol a rhai sy'n diwallu anghenion y grwpiau mwy agored i niwed. Mae sawl ardal wedi mabwysiadu ac addasu'r dull hwn, a bu'n gymorth i gysyniadu a thrafod newid.

